Barddoniaeth ieuenctid

Barddoniaeth 10 – 13

Buddugol: Hafan sef Heledd Edwards, Talerddig, Llanbrynmair



Ffugenw: Hafan

83. Blwyddyn 10 i 13: Taith

Taith y Wal Goch

Fy Nghymru, dan faner goch y wawr,
Cododd y galon yn uwch na'r ofn na'r braw;
O'r cae i'r stryd, o'r dafarn i'r tŷ,
Un llais oedd gennym: Dewch ymlaen, Cymru, chi!

Ar linell y gôl safodd Davies yn gadarn,
Un eiliad o arbed a throdd tynged y daith yn farn;
Anadl yn stopio, y wal goch yn fud,
Yna'r sŵn fel ton—roedd y wlad gyfan yn flodau hud.

A phan ddaeth Gwlad Belg, mor fawr eu henw,
Daeth dawn a dewrder i wisgo'n enw;
Robson-Kanu—troad, tric, cam,
Hud ar laswellt, a chwerthin y wal.

Roedd y wal goch yn canu, yn crwydro'r byd,
Yn cario'r freuddwyd fel baner rydd;
Dagrau a chwerthin, balchder pur,
Cenedl fach yn sefyll yn sicr a siŵr.

Degawd a aeth, ond mae'r cof yn fyw,
Fel tân o dan galon Cymru yw;
Fy Nghymru yw'r gân, y gred, y llwyddiant,
A'r wal goch—ein hanes, ein stori.

Barddoniaeth 7 –9

1. Criafolen sef Gwenlli Crowley
2. Begw sef Annes Wigley
3. Cydradd Mefus Coch a'r Ddraig Goch sef Gwenllian Ashton



Cynefin

Yng nghalon Bro Ddyfi dan gysgod mawr Hyddgen,
Mae fy nghartref mor glyd, fel cwch gwenynen.
Ymhlith y caeau, lle mae'r defaid yn blith,
Rwy'n cerdded fy nghi, dros haen o wynfrith.

Mae'r barcud coch yn dawnsio uwchben,
Yn chwilio am wyntoedd i godi ei ben.
Mae'r nant yn canu, yn llifo'n glir,
Fel llais yn y cefndir, sibrwd y tir.

Mae'r awyr yn gwisgo'r haul fel bathodyn,
A'r lleuad yn hongian fel hen grogodyn.
Gwelaf y nos yn blodeuo wrth i'r dydd ffoi,
Wrth i'r grimell ddiflannu ac y ddaear droi.

Rwan, mae'r dail yn ffarwelio'n dawel,
A'r gwynt yn adrodd hanes pob awel.
Y hydref sy'n cyfarch y ddaear sy'n lwyfan,
Fy nghartref yw hwn, fy nghalon, fy hafan.

gan 'Criafolen'
cyst. 84

Barddoniaeth 5 -6

1 Efan wyn Hughes, Ysgol Bro Idris

2.Seren Aur sef Casi Wyn Pughe, Ysgol Glantwymyn

3 LOL



Barddoniaeth blwyddyn 4 ac iau

1. Messi
2. Rhys Carre sef Tomi Rhys Davies
3. Twm sef Hari Evans

86.

Gêm Minecraft

Minecraft ydi fy hoff gem.

Gei di chware hefo fi.

Eistedda yn gyfforddus ar y soffa feddal.

Dwi'n chwarae fo adre.

Wyt ti adre hefyd? Dyna anhygoel.

Dwi'n gwneud ty bach.

Gosod y blociau sgwar, torri mwy o flociau,

Neidio a symud, hedfan, llithro,

Plannu, adeiladu, codi, ymestyn, gwella.

Edrycha ar yr hyn yr ydyn ni wedi ei greu?

Tydi o'n anhygoel?

Ddoi di i chwarae efo fi eto?